
 <p>Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru</p> <p>https://earlyyears.wales/</p>	<p>Camau Case Study</p>	 <p>Camau</p> <p>Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare</p>
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Level y cwrs: Mynediad

Cefndir

Rwy'n rheolwr a Cyn-ysgol wedi ei leoli mewn ysgol ym Mae Colwyn

Rydym yn dîm o 4 staff ac rydym yn darparu gofal plant ar gyfer plant 2-4 oed. Rydym ni'n lleoliad Dechrau deg ac yn cynnig Addysg Gynnar wedi'i hariannu ar gyfer y plant 3 oed.

Mae fy nhîm a minnau naill ai'n Saesneg neu wedi cael eu magu mewn cartref Saesneg.

Mae ein rhieni i gyd yn siaradwyr Saesneg, mae ambell ysgol Gymraeg yn ein hardal ni, felly mae rhieni Cymraeg eu iaith yn tueddu i ddewis yr ysgolion Cymraeg i'w plant.

Fel lleoliad, rydyn ni wastad wedi defnyddio rhywfaint o Gymraeg sylfaenol gyda'r plant. Rydym yn defnyddio cyfnodau sylfaenol, lliwiau, rhifau, diwrnodau siapiau yr wythnos a'r tywydd. Rydyn ni'n canu ambell i gân Gymraeg sylfaenol, yn cyfarch y plant yn Gymraeg (canu'r gân Bora da)

Rydyn ni'n dathlu Cymru ,Dydd Gŵyl Dewi, ac yn trafod ble rydyn ni'n byw yng Nghymru.

Fel tîm hoffem ni geisio defnyddio mwy o'r Gymraeg yn ein trefn feunyddiol. Rydym i gyd yn awyddus i wella ein Cymraeg ac i fagu hyder gan ddefnyddio mwy o fewn ein trefn ddyddiol.

Cwrs

Ar ôl trafod fel tîm ein bod am wella'r Gymraeg yn ein lleoliad aethom at Blynyddoedd Cynnar Cymru, cododd y cyfle i'n tîm gael mynediad at gwrs Camau. Roedd y tîm i gyd yn awyddus i ddechrau arni. Mae'n ddelfrydol ffitio o gwmpas ein gwaith prysur a'n bywydau cartref gan fod cwrs Camau ar-lein.

Mae'r cwrs yn hawdd i'w ddilyn ac wedi'i nodi'n dda gyda'r bonws ychwanegol o allu mynd dros unrhyw adran roeddem yn ansicr ohono, neu os oedd angen ymarfer ychwanegol arnom.

Roedd y cwrs yn gyfle i ni 'glywed' yr iaith a sut mae geiriau'n cael eu hynganu sy'n fuddiol gan ein bod ni bob amser yn ofni "Dweud y peth yn anghywir"

Mae'r cynnwys yn berthnasol i'n rôl a'n lefel bresennol

Engbreiffiau o ddylanwadu ar hyfforddiant wrth ymarfer

Ers dechrau'r cwrs mae wedi ein hannog ni fel tîm i adeiladu ar yr hyn rydyn ni'n ei wybod a'i wneud eisoes.

1. Rydym bellach yn ychwanegu set o eiriau bob pythefnos yr ydym i gyd yn eu defnyddio ynghyd â'n ymadroddion cyffredin. Rydym wrthi'n defnyddio enwau ffrwythau amser snac.
2. Cawn air amserol yr wythnos.
3. Mae Ticw yn mynd adref gyda'r plant, a darllenwn y llyfr stori gyda'n gilydd a aeth gydag ef.
4. Mae gennym fwrdd lle ry'n yn byw yng Nghymru
5. Rydym yn defnyddio ap Cym

Crynodeb

Ers dechrau'r cwrs mae wedi tynnu sylw at ein cryfderau a'n gwendidau. I mi does gen i ddim yr hyder (rhag ofn i mi ei ynganu'n anghywir) Tra bod rhai o fy nhîm wedi magu hyder yn eu gwybodaeth.